Cynghrair Seren Arian Gwynedd

27.01 **.Ol**

Nefyn 3 v Y Felinheli 1

Teithiodd tîm diguro'r Felinheli i Ben Llŷn bnawn Sadwrn — ond erbyn pedwar o'r gloch roedd y gleision wedi ennill y triphwynt a delio ergyd drom i obeithion yr ymwelwyr 0 ennill y pencampwriaeth. Tîm o fechgyn mawr, caled yw hogiau'r Felin — chwaraewyr sydd wedi bod ,yn aelodau o dimau llwyddiannus eraill dros y blynyddoedd ond, bnawn Sadwrn diwethaf, roedd Nefyn yn llwyr haeddu ennill.

Dechreuodd y Felin ar dân gan wneud sawl ymosodiad a rhoi pwysau ar amddiffynwyr Nefyn ond roedd Sion Williams yn fwy na pharod i wynebu'r her a, chyda Jonathan Foskett yn ei gefnogi ac yn helpu i ddechrau gwrthymosod, datblygodd y gem yn gyffrous dros ben. Arbedodd Dylan Hughes yn wyrthiol yn y gôl ar ddau achlysur ac roedd ei barodrwydd i siarad a chyfarwyddo Kevin Thomas a Robat Wyn, ei gyd-amddiffynwyr, yn golygu bod Nefyn yn gryf iawn 'yn y'cefn. Fodd bynnag, y Felin aeth ar y blaen hanner ffordd drwy'r hanner cyntaf pan rwydodd Mark Wells, ond unionodd Alan Wyn Jones y sgôr pan beniodd gôl gampus ar ôl hanner awr. Manteisiodd y rheolwr Raymond Cotgrove ar brofiad yr eilydd, Geraint Evans, yn yr ail hanner. Daeth Geraint ymlaen a chyda deng munud yn weddill rlioddodd Nefyn 2-1 ar y blaen. Cwta bum munud yn ddiweddarach coronodd Iwan Gwyn bnawn caled o waith pan sgoriodd drydedd gôl y gleision i sicrhau'r fuddugoliaeth.

Er bod John Gwynfor wedi, ei wahardd ar ôl derbyn cerdyn coch yng Nghaergybi roedd Emlyn Hughes a Bleddyn Evans yn gadarn yng nghanol y cae – a chyda pharodrwydd Brian Mathews a Geraint Davies i ymosod yn egniol a gwneud rhediadau i lawr y ddwy asgell gydol y pnawn, roedd Nefyn yn llwyr haeddu ennill.

Nefyn 2 v Blaenau Ffestiniog 2

Ar derfyn gem galed a chyffrous dros ben rhaid oedd cyfaddef bod y canlyniad yn eithaf teg. Blaenau a reolodd yr hanner cyntaf gan gadw rheolaeth ar y bêl a'i phasio yn gelfydd o'r cefn. Roedd Jimmy Havelock a Dylan Davies yn rheoli canol y cae a medrai'r blaenwyr yn hawdd fod wedi sgorio yn ystod y cyfnod yma. Methwyd â manteisio ar sawl cic cornel ond yna, gyda deng munud o'r hanner cyntaf yn weddill,. methodd Bleddyn Evans â chlirio'r perygl a rhwydodd Cai Williams, prif sgoriwr y Blaenau yn ddi-lol,

Roedd angen hwb ar Nefyn ac fe gawsant hynny pan sgoriodd Alan Wyn Jones gyda chic rydd. Anfonwyd Cai Williams o'r cae oherwydd iaith anweddus – ond o gic cornel manteisiodd yr ymwelwyr ar ddiofalwch ymysg amddiffynwyr Nefyn a pheniodd Kevin Thomas i'w rwyd ei hun i roi'r Blaenau ar y blaen unwaith eto.

0 hynny ymlaen, pwysodd Nefyn yn drwm, gan wneud i'w mantais o ddyn ychwanegol fod o fudd, a phan loriwyd Emlyn Hughes yn'y blwch, dyfarnwyd cic o'r smotyn a rhwydodd Alan yn ddidrafferth.

Ar ôl hynny symudodd y pwyntiau chwarae o un pen i'r cae i'r llall, o gôl i gôl ond methodd y naill dîm na'r llall a darganfod y rhwyd. Canlyniad teg oedd rhannu'r



Alan Jones o dîm Nefyn yn ceisio'r foli yn ystod y gêm yn erbyn y Blaenau. Rhannu'r pwyntiau fu raid i'r ddau dîm. (Llun: Dewi Wyn)

Cystadleuaeth Bowlio Mat Byr Dwyfor

Cynhaliwyd cystadleuaeth Bowlio Mat Byr Dwyfor yn ddiweddar. Cystadleuaeth i unigolion oedd yn cymryd lle a daeth tua tri dwsin o fowlwyr at ei gilydd i fwynhau diwrnod o gystadlu.

Ar derfyn y rowndiau cyntaf wynebodd Eunice Jones her Robin Davies ac, mewn gem agos iawn, Eunice a drechodd o 4-3. Roedd Herman Jones 5 ergyd yn well na Gwyn Jones ac Emlyn Hughes 10 ergyd yn well nag Olive Parrott o Abersoch.

Cafwyd gem agos iawn rhwng Dafydd Jones ac Arthur Lush. Er i Dafydd ennill o 7-2 roedd yn gem agos tu hwnt gyda'r ddau chwaraewr yn dangos sgiliau uchel.

Yn y rowndiau cyn-derfynol roedd Herman yn drech nag Eunice ac Emlyn ar y blaen i Dafydd. Cafodd Emlyn ddechrau da ac agorodd fwlch o 4 ergyd. Ymladdodd Dafydd yn ôl ond daliodd Emlyn y fantais.

Yn y rownd derfynol cafodd Herman well dechreuad nag Emlyn ac aeth 5 ergyd ar y blaen. Methodd Emlyn â chau'r bwlch ac ar ddiwedd y diwrnod Herman Jones o glwb Chwilog oedd y pencampwr gydag Emlyn Hughes, hefyd o'r un clwb, yn ail.

Ymddangosodd Maurice Cotgrove, Pen Llanw, Nefyn, sy'n aelod o glwb bowlio Chwilog, mewn cystadleuaeth bowlio yn Llandrindod yn ddiweddar. 0 ganlyniad dewiswyd Maurice i fowlio tros Gymru mewn cystadleuaeth yn erbyn Lloegr, lwerddon a'r Alban yn Milton Keynes ddiwedd mis Chwefror.

Llongyfarchiadau gwresog iddo a phob lwc pan fydd yn gwisgo'r siwmper goch dros ei wlad.

Llwyddiant Tîm Hoci Coleg Meirion Dwyfor

Yn ddiweddar curodd tîrn Hoci Merched Coleg Meirion Dwyfor dim o Goleg Newcastle-Under-Lyme ym mhedwaredd rownd cystadleuaeth Colegau Prydain.

Chwaraewyd y gem ym Modegroes a'r sgor terfynol oedd 4-0. Yn y llun gwelir Donna Williams (chwith) a sgoriodd 3 o'r pwyntiau a Bethan Dobson Jones, Capten y tîm.(Llun: Dewi Wyn

Clwb Rygbi Pwllheli

Caernarfon 16 - Pwllheli 20

Bob tymor mae rhywbeth yn arbennig yn y gemau rhwng y ddau dim mwyaf gorllewinol yng Nghynghrair y Gogledd. Pwllheli sydd wedi ennill y gemau ers sawl blwyddyn bellach ond yn ddi-ffael maent yn gemau. caled a digyfaddawd ac ni fu Caernarfon erioed mor agos i guro na'r Sadwrn diwethaf.

Roedd y glaw'n pistyllio ers oriau ac roedd gwynt cryf yn chwythu i fyny'r llethr ar y cae ger Ysbyty Eryri yng Nghaernarfon.

Cychwynodd blaenwyr Pwllheli ar dân yn gwthio o ddwy linell nepell 0 linell gais Caernarfon, a chafwyd dau gais o fewn y deng munud cyntaf i Richard Hughes a Mike Adams. Roedd y dyfarnwyr yn dehongli'r rheolau yn anesmwyth ac yn achosi anhawster i'r ddau dîm ond daeth Caernarfon yn ôl gyda chais anturus, wedi cyfnod pellach o bwyso gan Bwllheli, i gael eu troed yn ôl i'r gem.

Cafodd y tîm cartref dair cic cosb i wneud y sgôr yn 16 i 15 i Gaernarfon. Aeth y munudau heibio ac ar linell ar ôl llinell i Bwllheli nid oeddynt yn gallu troi'r meddiant yn bwyntiau. Bu Sgrym bump er llinell y Cofis ond er hyrddiad gan wyth Pwllheli, llwyddwyd i glirio'r llinell a chredai pawb fod y gem wedi'i hennill.

0 llinell ddilynol aeth y bêl i'r asgell a chafodd Ben Cowper ei daclo. Yn y sgarmes wedyn aeth bron pob un o chwaraewyr Caernarfon i mewn a phan ddaeth y bêl allan fe aeth ar draws y llinell gan Bwllheli, a'r'cefnwr dawnus, Mike Adams, yn sgorio yn y gornel.

Bu Pwllheli'n amddiffyn yn nerfus wedyn am funud cyn i'r dyfarnwr chwythu'r chwiban Olaf, er mawr ryddhad i hogiau Pwllheli.

Mae canlyniadau timau eraill wedi mynd o blaid Pwllheli y Sadwrn diwethaf gyda Dolgellau'n colli gan roi Pwllheli ar frig y Cynghrair o dri phwynt, ond fod gan Dolgellau ddwy gêm mewn llaw. Un peth sydd yn sicr eleni yw, na fydd y pencampwyr yn amlwg tan wythnosau olaf y tymor. Nid oes dwywaith na fydd yn rhaid i Bwllheli wella ar safon eu chwarae ddydd Sadwrn os ydynt am fod ar y brig ar ddiwedd y tymor.

LLONGYFARCHIADAU

Mae tîrn Rygbi Merched Pwllheli wedi ennill eu gem gyntaf y Sadwrn diwethaf, oddi cartref yn erbyn Y Rhyl. Cafwyd perfformiad eithriadol eto gan Donna, ***y*** mewnwr, a sgoriodd bedwar cais. Daliwch ati genod! Yn sicr, hon yw'r fuddugoliaeth gyntaf o iawer.

Clwb Rygbi Pwllheli

Chwefror 24, 2001
am 7.30 o'r gloch

SIOE ANGHYFFREDIN

s4c

Wynne Roberts

Tocynnau: 23.00
Ar werth yn y Clwb (613676)